



# CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL of WALES

## GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG CANLLAWIAU CEFNOGI SWYDDI

### 1 AMCANION

Er mwyn helpu cyhoeddwr i gynhyrchu llyfrau o safon uchel a'u cynorthwyo i hyrwyddo'r llyfrau hyn, mae grantiau ar gael ar gyfer swyddi Golygyddol a Marchnata.

Uchafswm y grant sydd ar gael ar gyfer swydd lawn-amser yw £15,000 neu 75% o'r costau (gan gynnwys y cyflog a chyfraniadau YG y cyflogwr), pa un bynnag yw'r lleiaf. Er bod y Cyngor Llyfrau'n annog creu swyddi llawn-amser ar gyfer gweithwyr llawn-amser, mae swyddi rhan-amser a chytundebau llawrydd rheolaidd yn dderbyniol. **Nid yw'r cynllun hwn yn cefnogi defnyddio nifer fawr o weithwyr llawrydd.**

Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n gweinyddu cynllun ar wahân ar gyfer Cefnogi Swyddi i gyhoeddwr teitlau Cymraeg.

### 2 CYMHWYSTER

#### ***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***

Cyhoeddwr yng Nghymru sydd â rhaglen gyhoeddi reolaidd o ysgrifennu Saesneg o ansawdd uchel sy'n rhagori'n ddiwylliannol neu lenyddol.

### 3 MEINI PRAWF A BLAENORIAETHAU AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

O dan y cynllun hwn rhoddir blaenoriaeth i gyhoeddwr llyfrau uchel eu hansawdd sy'n rhagori'n llenyddol neu ddiwylliannol.

Cloriennir y rheini sy'n derbyn grantiau ar hyn o bryd ar sail:

- ansawdd y gwaith a wneir gan unigolion y cefnogir eu swyddi drwy'r cynllun hwn;
- gwerth y swydd unigol o fewn y cwmni;
- safon olygyddol rhestri perthnasol y cyhoeddwr yn achos golygyddion a gefnogir;
- ffigurau gwerthiant a phroffil rhestri perthnasol y cyhoeddwr yn achos swyddi marchnata a gefnogir.

Cloriennir ymgeiswyr newydd ar sail:

- eu hymrwymiad i ysgrifennu Saesneg o safon uchel yng Nghymru;
- safonau cynhyrchu a dylunio cyhoeddiadau presennol;
- y swydd ddisgrifiad ar gyfer y swydd a gefnogir;
- rhestr o ganlyniadau a ddisgwylir y gellir cymharu llwyddiant y swydd yn ei herbyn;
- eu gallu i dangos fod arnynt angen mwy o ariannu.

### 4 Y GRANT

Cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn yw oddeutu £100,000.

Uchafswm y grant sydd ar gael ar gyfer swydd lawn-amser yw £15,000 neu 75% o'r costau (gan gynnwys y cyflog a chyfraniadau YG y cyflogwr), pa un bynnag yw'r lleiaf.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

Fel arfer bydd grantiau'n cael eu dyfarnu am gyfnod o dair blynedd. Mae dyddiad cau nesaf y cais, ynghyd â manylion ynghylch y cyfnod ariannu ac amcangyfrif o ran amseriad y penderfyniad ar gael ar wefan y Cyngor Llyfrau.

Gwahoddir ymgeiswyr newydd i ofyn am wybodaeth bellach am gymhwyster a'r drefn ymgeisio o'r cyfeiriad isod.

## 6 TALU'R GRANTIAU

Fel arfer telir y grantiau fesul chwarter, ymlaen llaw.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn i gyhoeddwr ddarparu rhestrau o deitlau y bu staff a gefnogwyd trwy'r cynllun hwn yn gweithio arnynt ac o bryd i'w gilydd byddant yn asesu ansawdd y cynnyrch a/neu werthiant teitlau perthnasol.

**Gelir cael ffurflenni cais a chyngor pellach oddi wrth yr:**

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan,  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB  
e-bost: [english.grants@books.wales](mailto:english.grants@books.wales)**

**MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE**



GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

AMODAU A THELERAU CYFFREDINOL  
SWYDDI A GEFNOGIR

- 1 Cynigir grant ar sail y wybodaeth a geir yn y cais, ac yn unrhyw ohebiaeth ategol. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ailystyried neu ddi-ddymu'r grant a ddyfarnwyd os bydd y manylion a roddwyd ar y ffurflen gais neu y cytunwyd arnynt fel arall wedi cael eu newid heb gytundeb ymlaen llaw. Cynigir grant am gyfnod o 3 blynedd fel arfer, ond mae gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi yr hawl i ddyfarnu cyllid am gyfnod byrrach pe byddai'n penderfynu fod hynny'n briodol.
- 2 Bydd yr holl lyfrau y mae unigolyn y caiff ei swydd ei hariannu drwy'r cynllun swyddi a gefnogir, yn gweithio arnynt, yn cael eu hystyried yn 'llyfrau cymorth grant' i bwrpas yr amodau sy'n dilyn.
- 3 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant (y cwmni cyhoeddi) gydymffurfio ag amodau a gofynion cynllun ychwanegol a nodwyd yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.
- 4 Ni fydd grantiau'n daladwy yn ystod unrhyw gyfnod pryd y bydd y swydd yn wag, er y gallai'r Cyngor Llyfrau ganiatáu cyfnod byr iawn o ras yn ôl fel y gwêl yn dda. Ni ellir cytuno ar daliadau dewisol felly'n ôl-weithredol, ac ni wneir taliadau fel arfer i gynnwys cyfnod proses recriwtio.
- 5 Rhaid cytuno ymlaen llaw gyda CLIC ar unrhyw newidiadau i'r strwythur staffio, y swydd ddisgrifiad neu unigolyn sydd yn y swydd.
- 6 Rhaid i gopïau o hysbysebion ar gyfer swyddi a gefnogir gynnwys y geiriad "This post is supported by the Welsh Books Council". Dylid anfon copïau o hysbysebion ymlaen i CLIC pan gânt eu cyhoeddi.
- 7 Rhaid anfon copi o'r swydd ddisgrifiad a chopïau o'r meini prawf a ddefnyddir i fesur pob ymgeisydd yn ystod yr holl broses recriwtio at CLIC gyda'r copïau o'r hysbysebion. Bydd rhaid bod CLIC yn cytuno gyda'r meini prawf cyn i unrhyw restr fer gael ei chreu.
- 8 Rhaid i'r wasg ddilyn arfer da a gweithredu yn ôl deddfau cyflogaeth a'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ystod y broses recriwtio.
- 9 Mae CLIC yn cadw'r hawl i fynychu cyfweiliadau. Rôl sylwedydd fydd gan CLIC yn y cyfweiliad ac ni fydd yn rhan o unrhyw benderfyniad. Serch hynny, os bydd amheuaeth am gyfreithlondeb y broses, gall y Cyngor beidio cymeradwyo'r penodiad, gan ofyn am gopïau o bob dogfen perthnasol.
- 10 Rhaid anfon copïau o bob cytundeb newydd rhwng unigolyn yn y swydd a gefnogir a'r cyhoeddwr ymlaen i'r Cyngor Llyfrau cyn gynted ag y byddant wedi cael eu llofnodi (h.y. y cytundeb newydd ac unrhyw gytundebau adnewyddu allai gael eu rhoi). Rhaid i bob cytundeb fod yn gyfreithiol.
- 11 Dylai'r cyhoeddwr roi gwybod i'r Cyngor Llyfrau am unrhyw gyfnodau estynedig o absenoldeb salwch (mwy na phythefnos) a allai olygu bod angen dod â staff allanol i mewn cyn gynted ag y bo'r cyhoeddwr yn ymwybodol o'r broblem.
- 12 Mae nawdd ar gyfer y grantiau yn amodol ar barhad nawdd Llywodraeth Cymru. Ni ellir gwarantu'r grantiau am gyfnod o fwy na 12 mis ar y tro ac nid oes unrhyw warant y bydd y grant yn cael ei adnewyddu ar ôl i'r cyfnod ariannu ddod i ben.
- 13 Rhaid argraffu'r gydnabyddiaeth sy'n dilyn ar y ddalen gyferbyn â'r ddalen deitl ym mhob llyfr y dyfarnwyd grant iddo neu y mae staff y cefnogir eu swyddi gan gymorth grant wedi

gweithio arno: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council." Yn ogystal, lle bo logos arianwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos ar y ddalen gyferbyn â'r ddalen deitl, ar y clawr neu mewn unrhyw le arall yn y llyfr, rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru yn ychwanegol at y geiriad a rhoddir uchod. Dylid cydnabod cefnogaeth ariannol y Cyngor Llyfrau hefyd ym mhob digwyddiad cyhoeddus sydd â'r nod o hyrwyddo neu farchnata teitlau a gefnogwyd. Gallai peidio â chynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% yn y grant sy'n daladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn nac unrhyw gyfeiriad arall at y Cyngor Llyfrau mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn cymryd neu'n derbyn cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sy'n derbyn y grant (gweler rhif 32).

- 14 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant arddangos rhif ISBN 13-digid a chod-bar cyfatebol ar glawr pob cyhoeddiad.
- 15 Dylid anfon gwybodaeth lyfryddol amserol (gan gynnwys ISBN, teitl, awdur, cyhoeddwr, pris, dyddiad cyhoeddi, categori a disgrifiad byr) i Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf chwe mis cyn cyhoeddi neu o fewn pythefnos ar ôl i'r cyhoeddwr dderbyn cynnig grant, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf o'r ddau. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei dangos wedyn ar *gwales.com*.
- 16 Dylid anfon llun o glawr y llyfr (mae drafft da yn dderbyniol yn y lle cyntaf yn hytrach na fersiwn derfynol) i Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf dri mis cyn cyhoeddi. Dangosir y clawr wedyn ar *gwales.com*.
- 17 Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i gyflwyno pob gwybodaeth lyfryddol a lluniau o'r clawr. Mae cyfrinair ar gyfer defnyddio'r ffurflen ar-lein, sydd ar gael trwy gysylltu gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth. Mewn amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl dylai'r sawl sy'n derbyn y grant drafod hyn gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth a'r Adran Datblygu Cyhoeddi.
- 18 Rhaid i'r cyhoeddwr ddiweddarau pob gwybodaeth sydd am y teitl ar *gwales.com* (gwybodaeth lyfryddol, disgrifiad byr a llun o'r clawr) yn syth, yn ôl fel y bydd unrhyw newidiadau'n digwydd cyn ac ar ôl cyhoeddi, hyd nes bydd y llyfr allan o brint. Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol trwy'r ffurflen ar-lein (neu yn ôl fel y bydd yr Adran Gwerthu a Gwybodaeth yn cynghori). Gellir cyflwyno gwybodaeth ychwanegol gan y cyhoeddwr yn electronig yn ôl fel y bydd y cyhoeddwr yn gweld yn dda, gan gynnwys tabl cynnwys, bywgraffiad awdur, dyfyniadau o adolygiadau a manylion gwobrau a enillwyd.
- 19 Yn ogystal â rheoli llif gwybodaeth fanwl gywir i'r fasnach lyfrau, dylai'r sawl sy'n derbyn y grant roi gwybod i'r Adran Datblygu Cyhoeddi am unrhyw oedi o ran y dyddiad cyhoeddi (neu fanylion eraill, e.e. newid teitl) mewn da bryd ac o leiaf o dri mis cyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol. Os na chyhoeddir y llyfr o fewn tri mis i'r dyddiad cyhoeddi a roddwyd i'r Adran Datblygu Cyhoeddi, gellir diddymu'r grant yn awtomatig.
- 20 Ni ddylid cyhoeddi llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn ystod mis Rhagfyr ac ni roddir grant i unrhyw deitl y trefnwyd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Rhaid i gopïau unrhyw deitlau Tachwedd gyrraedd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau erbyn y dydd Mercher olaf ym mis Tachwedd. Bydd gostyngiad o £200 yn y grant taladwy i lyfrau a gyhoeddir ym mis Rhagfyr, neu deitlau Tachwedd sy'n cyrraedd y Canolfan Ddosbarthu ar ôl y dyddiad hwn.
- 21 Wrth ailargraffu neu gyhoeddi argraffiadau newydd, rhaid arddangos blwyddyn cyhoeddi'r ailargraffiad neu'r argraffiad newydd yn glir.

- 22 Rhaid i'r awdur dderbyn a llofnodi cytundeb cyn i'r llyfr gael ei gyhoeddi ac ar yr un pryd ag y bo cyhoeddwr yn ymrwymo i gyhoeddi. Rhaid talu breindal yn rheolaidd. Dylai'r awdur dderbyn datganiad ariannol a thâl, os yw hynny'n berthnasol, o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai cytundeb yr awdur nodi pryd y gellid disgwyl datganiadau breindal a thaliadau o'r fath.
- 23 Rhaid i bob llyfr y mae staff y cefnogir eu swyddi drwy'r cynllun hwn wedi gweithio arnynt fod ar gael trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau ar delerau'r Cyngor Llyfrau (fel arfer isafswm archeb o 60 copi o bob teitl, ond yn uwch yn aml, neu ar sail gwerthu neu ddychwelyd fel y gallant fod ar gael i fanwerthwyr ar y telerau masnachol arferol).
- 24 Mae'n amod bod llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y byddant ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu fanwerthwr, neu mewn lansiad neu ddigwyddiad arall. Y cyhoeddwr sy'n gyfrifol am gludo a chyflenwi llyfrau'n brydlon.
- 25 Os yw llyfr ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, ac un o'r fersiynau hynny wedi derbyn cymorth grant, yna rhaid i'r ddwy fersiwn fod ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodwyd yn amodau 23 a 24.
- 26 Os yw cyhoeddwr yn derbyn ariannu craidd gan y Cyngor Llyfrau, e.e. cefnogaeth ar gyfer swyddi, yna mae'n amod o'r ariannu hwnnw fod yr holl deitlau a gyhoeddir gan y cyhoeddwr, boed yn derbyn cymorth grant unigol neu beidio, ar gael yn barhaus trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau am gyfnod o 12 mis. Nid yw llyfrau a gyhoeddir i gyd-fynd â digwyddiadau penodol megis y Nadolig neu Gwpan y Byd, er enghraifft, yn ddestun i'r gofyniad hwn.
- 27 Yn achos llyfrau sy'n derbyn cymorth grant, ni ddylai'r pris gwerthu gael ei leihau yn sylweddol (fel mewn arwerthiant hanner pris) am gyfnod o ddeunaw mis ar ôl cyhoeddi. (Nid yw hyn yn rhwystro cyhoeddwr rhag cael 'cynigion arbennig' neu ostyngiadau pris eraill sy'n rhan o strategaethau hyrwyddo ond mae yn gwahardd math ar weddillio llyfrau a gefnogir gan grant o fewn y cyfnod hwn).
- 28 Ni ddylid gwerthu hawliau DU teitlau a dderbyniodd gymorth grant o fewn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cyhoeddi heb gytundeb y Cyngor Llyfrau ymlaen llaw.
- 29 Mae'n ofynnol i bob un sy'n derbyn grant ddarparu ffigurau gwerthiant am gyfnod o hyd at ddwy flynedd o'r dyddiad cyhoeddi ar gyfer pob teitl y mae unigolyn cyflogedig y cefnogir ei swydd drwy'r cynllun hwn wedi gweithio arno. Bydd y Cyngor Llyfrau'n gofyn am ffigurau o'r fath fel y bo angen. Mae'r Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth resymol arall ynghylch perfformiad llyfr sy'n derbyn cymorth grant er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd cymorth grant a monitro gwerth am arian.
- 30 Os na chyflawnir y dibenion y rhoddwyd y grant eu cyfer o fewn amser priodol, neu os na chydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, gall y Cyngor Llyfrau ofyn i'r sawl a dderbyniodd y grant ddychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant allai fod wedi'i dalu.
- 31 Bydd rhestr wirio o ddyletswyddau ar gyfer swyddi a gefnogir yn cael ei hanfon i gyhoeddwr. Dylai'r cyhoeddwr sicrhau bod gan yr unigolyn y swydd hon cyfle rhesymol i berfformio'r dyletswyddau a rhestrwyd.
- 32 Mae'r Cyhoeddwr ar eu rhan eu hunain (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'u holynwyr mewn hawl y bydd ef/hi y cyhoeddwr bob amser o hyn ymlaen yn diogelu'r Cyngor Llyfrau ac yn ei ddigolledu rhag pob achos, costau, hawliadau a gofynion mewn perthynas ag unrhyw weithred allai arwain at dorri cyfreithiau Cymru a Lloegr.

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION  
OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE